EWCH YN BANANAS

TROSOLWG I ATHRAWON

Cynnwys

- Nodau *Ewch yn Bananas*
- Cyflwyniad
- Strwythur *Ewch yn Bananas*
- Gwahaniaethu
- Grŵp oedran
- Dolenni defnyddiol
- Amlinelliad manwl o'r adnodd
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Cydnabyddiaethau

Nodau *Ewch yn Bananas*

- Helpu dysgwyr 7-11 oed i wneud cysylltiadau rhwng lleol a byd-eang trwy archwilio o ble mae'r bananas rydym yn eu bwyta yn y DU yn dod.
- Annog arddulliau addysgu a dysgu cyfranogol, ymchwiliol a chydweithredol.
- Hybu meddwl yn feirniadol am faterion a gwerthoedd sy'n gysylltiedig â themâu tegwch a chydraddoldeb.
- Cefnogi athrawon i gyflawni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer daearyddiaeth (astudiaethau cymdeithasol yn yr Alban), Cymraeg a Saesneg yng Nghymru a Saesneg yn Lloegr a'r Alban. *Noder: Darperir gweithgareddau a awgrymir hefyd sy'n cysylltu ag ystod o feysydd cwricwlwm eraill.*

Cyflwyniad

Mae *Ewch yn Bananas* yn darparu ciplun diddorol o daith banana; mae'n helpu dysgwyr i werthfawrogi o ble mae ein bwyd yn dod a datblygu sgiliau amrywiol, gan gynnwys defnyddio mapiau a delweddau, ffurfio casgliadau, meddwl yn feirniadol a thrafod. Gellid defnyddio'r adnodd trawsgwricwlaidd creadigol hwn unrhyw adeg o'r flwyddyn, ond mae hefyd yn fan cychwyn delfrydol ar gyfer dysgu, meddwl a gweithredu mewn ysgolion yn ystod Pythefnos Masnach Deg neu adeg y Cynhaeaf.

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau gofyn cwestiynau a ffurfio casgliadau trwy ddefnyddio lluniau i ymchwilio i daith banana, o'r adeg y mae'r planhigyn yn cael ei blannu yng Ngholombia nes bydd y bananas yn cael eu gwerthu yn y DU. Byddant yn dysgu wedyn am rai o'r gwledydd lle mae'r bananas rydym yn eu bwyta yn y DU yn cael eu tyfu; dod o hyd i leoliad y gwledydd hyn ar fap o'r byd ac archwilio pa mor bell y mae'r bananas yn teithio i gyrraedd ein harchfarchnadoedd. Trwy ymchwilio'n fanylach i'r gwledydd hyn, bydd y dysgwyr yn dod i ddeall bod gwahanol gnydau'n tyfu'n

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

well mewn gwahanol rannau o'r byd. Yna bydd y dysgwyr yn chwarae gêm efelychu er mwyn ystyried rhai o'r heriau y mae ffermwyr bananas yn eu hwynebu, yn ogystal â'r effeithiau cadarnhaol y gall Masnach Deg eu cael ar fywydau pobl. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn meddwl yn feirniadol am gamau gweithredu posibl y gallent eu cymryd yn yr ysgol i hyrwyddo Masnach Deg.

Noder: Wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Sefydliad Masnach Deg, mae hwn yn fersiwn diwygiedig wedi'i ddiweddaru o'r adnodd Ewch yn Bananas gwreiddiol a ddatblygwyd yn 2007.

Beth yw Masnach Deg?

Mae bywyd yn anodd i lawer o ffermwyr tyddynnod y byd. Er mai ffermwyr tyddynnod yw'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr bwyd y byd, maent yn aml yn cael eu talu'n annheg am y cnydau y maent yn eu tyfu ac yn cael eu hamddifadu o'r adnoddau y mae arnynt eu hangen i ffynnu, megis dŵr, tir, technoleg a buddsoddiad. Gall unrhyw ostyngiad yn y galw neu gynnydd ym mhrisiau eu cnydau olygu'r gwahaniaeth rhwng bwyta bob diwrnod neu fynd heb fwyd.

Mae Masnach Deg yn cefnogi ffermwyr a gweithwyr sydd ar waelod y cadwyni cyflenwi byd-eang. Mae'n sicrhau eu bod yn cael pris tecach am yr hyn y maent yn ei dyfu, yn gwella amodau gwaith ffermwyr a gweithwyr ar ffermydd mwy, ac yn helpu i warchod yr amgylchedd. Bydd eitemau bwyd sydd â'r Nod Masnach Deg, er enghraifft bananas, coffi, siocled, siwgr a the, wedi cael eu cynhyrchu gan sefydliadau ffermwyr neu blanhigfeydd bach sy'n bodloni safonau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Masnach Deg.

Trwy ymuno â ffermydd eraill mewn cwmni cydweithredol Masnach Deg, mae gan ffermwyr fwy o bŵer i negodi prisiau tecach â'r cwmnïau mawr sy'n prynu eu cynhyrchion. Mae'r cwmni cydweithredol hefyd yn cael ychydig o arian ychwanegol, a elwir yn bremiwm Masnach Deg, y gellir ei ddefnyddio i helpu'r gymuned gyfan. Y ffermwyr a'r gweithwyr eu hunain fydd yn penderfynu sut y dylid gwario'r premiwm hwn yn eu cymuned, er enghraifft ar addysg, gofal iechyd, glanweithdra neu wella eu ffermydd er mwyn iddynt allu gwneud mwy o arian.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.fairtrade.org.uk/schools

Strwythur *Ewch yn Bananas*

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys:

- *Tri chynllun uned* (yn cynnwys unrhyw adnoddau a thaflenni gweithgareddau ategol).
- *Sioe sleidiau* (i'w defnyddio yn y tair uned).
- *Stori'r fanana: pecyn lluniau* (yn dangos taith banana o'r adeg y mae'n cael ei thyfu yng Ngholombia nes bydd yn cael ei gwerthu yn y DU).
- *Syniadau addysgu trawsgwricwlaidd* (gweithgareddau a awgrymir ar gyfer dysgu pellach am bynciau bananas a Masnach Deg mewn gwahanol feysydd cwricwlaidd).

Rydym wedi ceisio cadw'r adnoddau mor hyblyg ag sy'n bosibl fel bod athrawon yn gallu creu teithiau dysgu wedi'u personoli. Gall athrawon benderfynu hepgor rhai gweithgareddau, gan ddibynnu faint o amser sydd ar gael, a chan ddibynnu ar wybodaeth bresennol, dealltwriaeth ac anghenion eu dysgwyr. *Cymerir yn ganiataol y bydd athrawon yn dewis ymestyn y gweithgareddau mewn uned dros fwy nag un wers.*

Mae pob uned yn dechrau â throsolwg ac yn cynnwys amcanion dysgu, deilliannau dysgu, cwestiynau allweddol a dolenni cwricwlaidd. Darperir gweithgareddau a awgrymir â brasamcan o'r

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

amser y byddant yn ei gymryd, ond nid ydynt yn cynnwys yr amser y gallai fod ei angen ar gyfer addysgu ychwanegol am rai o'r cysyniadau. Gan fod yr unedau wedi'u cynllunio ar gyfer defnydd hyblyg ar draws mwy nag un wers, gallai cyfanswm yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r holl weithgareddau amrywio. Nid ydym wedi cynnwys mannau cychwyn na sesiynau dosbarth cyfan gan ein bod yn cymryd yn ganiataol y bydd ar athrawon eisiau cynllunio'r rhain yn unigol.

Trosolwg o'r unedau:

Uned 1- Darlunio bananas

Bydd y dysgwyr yn defnyddio lluniau i ymchwilio i daith banana, o'r adeg y mae'r planhigyn yn cael ei blannu yng Ngholombia nes bydd y bananas yn cael eu gwerthu yn y DU. Byddant yn gweithio mewn grŵp i ddechrau i lunio cwestiynau y byddent yn hoffi eu gofyn am lun sy'n dangos un cam o'r daith hon. Anogir y dysgwyr i feddwl am y gwahanol fathau o gwestiynau y gallent eu gofyn a'u trafod, er enghraifft a fyddant yn hawdd ynteu'n anodd eu hateb, neu a yw'r atebion yn debygol o fod yn ffaith ynteu'n farn. Yna bydd y dysgwyr yn ystyried beth allai fod wedi digwydd cyn ac ar ôl y cam sy'n cael ei ddangos yn un o'r lluniau, gan ddefnyddio tystiolaeth sydd yn y llun yn ogystal â gwybodaeth a syniadau sydd ganddynt yn barod. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn cydweithio i roi'r lluniau mewn trefn i ddangos dilyniant cywir gwahanol gamau o'r daith.

Uned 2 – Mapio bananas

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i rai o'r gwledydd lle mae'r bananas rydym yn eu bwyta yn y DU yn cael eu tyfu. Yn gyntaf byddant yn dod o hyd i'r gwledydd hyn ar fap o'r byd ac yn archwilio pa mor bell y mae bananas yn teithio pan fyddant yn cael eu cludo i'r DU. Yna bydd y dysgwyr yn darganfod mwy o wybodaeth am y gwledydd hyn, gan ymchwilio i agweddau fel yr hinsawdd a nodweddion daearyddol allweddol. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn defnyddio eu canfyddiadau i nodi rhai o nodweddion cyffredin y gwledydd hyn, gan eu helpu i ddeall bod gwahanol gnydau'n tyfu'n well mewn gwahanol rannau o'r byd.

Uned 3 – Beth yw Masnach Deg?

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o'r hyn y mae Masnach Deg yn ei olygu. Byddant yn chwarae gêm efelychu lle byddant yn cael eu rhoi yn sefyllfa ffermwr bananas. Bydd chwarae'r gêm yn helpu'r dysgwyr i feddwl am rai o'r heriau y mae ffermwyr bananas yn eu hwynebu, yn ogystal â darganfod am yr effeithiau cadarnhaol y gall Masnach Deg eu cael ar fywydau ffermwyr a gweithwyr sydd ar waelod y gadwyn gyflenwi bananas. Yna bydd y dysgwyr yn meddwl yn feirniadol am gamau gweithredu posibl yn ymwneud â Masnach Deg y gallent eu cyflawni yn yr ysgol ac yn trafod eu syniadau gyda dysgwyr eraill.

Gwahaniaethu

Lle bo modd, mae'r gweithgareddau a'r adnoddau wedi'u gwahaniaethu er mwyn eich helpu i ddiwallu anghenion gwahanol ddysgwyr yn eich dosbarth. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol hefyd wrth addasu rhai o'r gweithgareddau i ddiwallu anghenion dysgwyr iau a hŷn.

Grŵp oedran

Mae'r adnoddau hyn yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr 7-11 oed. Er hyn, gellid addasu llawer o'r gweithgareddau i'w defnyddio gyda dysgwyr iau neu hŷn.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Dolenni defnyddiol

- Mae gwefan Addysg Oxfam (Oxfam Education) yn cynnig cannoedd o adnoddau ar-lein di-dâl, syniadau addysgu a chanllawiau i ymarferwyr addysg. Rydym hefyd yn cefnogi athrawon ac ysgolion trwy ddatblygiad proffesiynol a gwaith partneriaeth, gan helpu i rymuso pobl ifanc i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithredol: www.oxfam.org.uk/education
- Defnyddiwch adnoddau addysgu'r Sefydliad Masnach Deg i ddarganfod mwy am daith banana, Masnach Deg a'r effeithiau cadarnhaol y gall eu cael ar fywydau ffermwyr a gweithwyr: schools.fairtrade.org.uk/
- Cynhelir Pythefnos Masnach Deg yn flynyddol, ac mae'n rhoi cyfle i ysgolion, ymgyrchwyr, busnesau a mannau addoli hyrwyddo Masnach Deg a chefnogi'r ffermwyr a'r gweithwyr sy'n tyfu ein bwyd: www.fairtrade.org.uk/en/get-involved/current-campaigns/fairtrade-fortnight

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB / Y Sefydliad Masnach Deg
Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y llun hwnnw, ynghyd ag Oxfam a'r Sefydliad Masnach Deg. Ni chewch ddefnyddio'r lluniau na'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r lluniau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Amlinelliad manwl o'r adnodd

Trosolwg o'r uned	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Uned 1: *Darlunio bananas*	• Gallu llunio cwestiynau am lun a bod yn ymwybodol o rai ffyrdd o gategoreiddio cwestiynau. • Defnyddio tystiolaeth o lun a gwybodaeth bresennol i ffurfio casgliadau. • Gwrando ar syniadau pobl eraill ac ymateb iddynt.	• Bydd y dysgwyr yn llunio cwestiynau y byddent yn hoffi eu gofyn am lun ac yna'n eu categoreiddio. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio tystiolaeth weledol a'u gwybodaeth bresennol i ffurfio casgliad ynglŷn â beth allai fod wedi digwydd cyn ac ar ôl y digwyddiadau a welir mewn llun. • Bydd y dysgwyr yn gweithio gyda dysgwyr eraill mewn grŵp i drafod eu syniadau.	• Pa gwestiynau hoffech chi eu gofyn am y llun hwn? • Pa rai o'r cwestiynau hyn fydd yn arwain at atebion sy'n ffeithiau a pha rai fydd yn arwain at farn? • Pa rai o'r cwestiynau hyn fydd yn hawdd eu hateb a pha rai fydd yn anos? Pam yr ydych yn meddwl hyn? • Sut fyddech chi'n mynd ati i ateb y cwestiynau hyn? • Beth ydych chi'n meddwl a ddigwyddodd cyn y cam sydd i'w weld yn y llun hwn? Beth allai ddigwydd wedi hynny, yn eich barn chi?	• Gweithgaredd 1.1: *Amser cwestiynau* • Gweithgaredd 1.2: *Cyn ac ar ôl*	• Sioe sleidiau *Ewch yn Bananas*: sleidiau 2 i 13 • Stori'r fanana: *pecyn lluniau* • Taflen Adnoddau 1: *Lluniau o fananas* • Taflenni o bapur plaen
Uned 2: Mapio bananas	• Gallu defnyddio atlas neu ffynhonnell gyfeiriol arall i ddod o hyd i wledydd a chyfandiroedd ar fap o'r byd. • Datblygu sgiliau ymchwil. • Deall bod gwahanol gnydau yn addas i wahanol hinsoddau a rhannau o'r byd, ac yn fwyaf penodol, y bydd bananas yn tyfu orau mewn hinsawdd gynnes, heulog a llaith.	• Bydd y dysgwyr yn dod o hyd i rai o'r gwledydd lle tyfir bananas ar fap o'r byd. • Bydd y dysgwyr yn ymchwilio'n fanylach i un o'r gwledydd hyn, gan ymchwilio i agweddau fel ym mha gyfandir mae'r wlad, pa wledydd sy'n ffinio â hi, yr hinsawdd a nodweddion daearyddol allweddol. • Bydd y dysgwyr yn nodi rhai nodweddion sy'n gyffredin i'r gwledydd hyn ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall bod bananas yn tyfu'n well mewn rhai hinsoddau a rhannau o'r byd.	• Ble mae'r gwledydd hyn ar y map o'r byd? Pa wlad yw'r un agosaf at y DU? Pa wlad yw'r un bellaf? • Beth ydych chi'n ei sylwi am leoliad y gwledydd hyn? • Beth ydych chi eisoes yn ei wybod am y gwledydd hyn? Beth fyddech chi'n hoffi ei ddarganfod? • Sut hinsawdd sydd gan y wlad hon? A oes ganddi unrhyw nodweddion daearyddol arbennig, fel afonydd, mynyddoedd neu lynnoedd?	• Gweithgaredd 2.1: *Mapio* • Gweithgaredd 2.2: *Ble mae bananas yn tyfu?*	• Sioe sleidiau *Ewch yn Bananas*: sleidiau 14 i 15 • Taflenni gweithgareddau: *1. Mapio bananas* *2. Ffeil ffeithiau gwledydd*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Trosolwg o'r uned	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Uned 3: *Beth yw Masnach Deg?*	• Gallu gwrando ar eraill ac ymateb iddynt, a chymryd rhan mewn trafodaethau. • Datblygu empathi gyda phobl eraill. • Gwybod beth mae Masnach Deg yn ei olygu a bod yn ymwybodol o rai o'r effeithiau cadarnhaol y gall eu cael ar fywydau pobl. • Datblygu sgiliau meddwl yn feirniadol.	• Bydd y dysgwyr yn chwarae gêm efelychu mewn grwpiau a fydd yn eu helpu i feddwl am rai o'r heriau y mae ffermwyr bananas yn eu hwynebu a dod i wybod am yr effeithiau cadarnhaol y gall Masnach Deg eu cael ar fywydau ffermwyr a gweithwyr ar waelod y gadwyn gyflenwi bananas. • Bydd y dysgwyr yn meddwl yn feirniadol am gamau posibl y gallent eu cymryd er mwyn hyrwyddo Masnach Deg. • Bydd y dysgwyr yn trafod eu syniadau gydag eraill ac yn negodi er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cyd ynglŷn â pha gamau gweithredu Masnach Deg fyddai'r rhai gorau iddynt eu cyflawni yn eu hysgol.	• Beth yw Masnach Deg? • Sut brofiad oedd bod yn ffermwr bananas? Beth oedd yn her? Pam? • Sut yr oedd eich grŵp chi wedi ymdopi ar ôl cyflwyno senario? • Beth oedd yn deg am y gêm a beth oedd yn annheg? • Pa gamau gweithredu i hyrwyddo Masnach Deg yw'r rhai gorau yn eich barn chi a pham?	• Gweithgaredd 3.1: *Cwis Bananas (gweithgaredd cychwynnol dewisol)* • Gweithgaredd 3.2: *Fyddech chi'n gallu bod yn ffermwr bananas?* • Gweithgaredd 3.3: *Gweithredu ar gyfer Masnach Deg*	• Sioe sleidiau *Ewch yn Bananas*: sleidiau 16 i 18 • Taflenni gweithgareddau: *1. Templed banana* *2. Cardiau senario* *3. Sgorio camau gweithredu* • Taflenni plaen o bapur A4, pensiliau lliwio a sisyrnau.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Dinasyddiaeth Fyd-eang

Adnodd dinasyddiaeth fyd-eang wedi'i ysgrifennu ar gyfer athrawon plant 7 i 11 oed yw hwn. Mae Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yn fethodoleg sy'n ceisio helpu pobl ifanc i ddatblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar. Mae Oxfam yn awgrymu dull Dysgu-Meddwl-Gweithredu i roi strwythur i'r gweithgareddau dinasyddiaeth fyd-eang a rhoi cyfle i'r bobl ifanc ddysgu am faterion, meddwl yn feirniadol am ddulliau i'w datrys, a gweithredu fel dinasyddion byd-eang cyfrifol. Gallai'r camau gweithredu gynnwys darganfod rhagor o wybodaeth neu feddwl yn ddyfnach am fater. Gallent hefyd olygu sicrhau bod eraill yn fwy ymwybodol o fater, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian neu ymgyrchu penodol. Am ragor o wybodaeth, gweler:

www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship

Dyma elfennau allweddol dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol:

Gwybodaeth a dealltwriaeth	Sgiliau	Gwerthoedd ac agweddau
• Cyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Hunaniaeth ac amrywiaeth • Globaleiddio a rhyngddibyniaeth • Datblygu cynaliadwy • Heddwch a gwrthdaro • Hawliau dynol • Pŵer a llywodraethu	• Meddwl mewn modd creadigol a beirniadol • Empathi • Hunanymwybyddiaeth a myfyrdod • Cyfathrebu • Cydweithredu a datrys gwrthdaro • Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd • Camau gweithredu gwybodus a myfyriol	• Ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch • Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Parch at bobl a hawliau dynol • Rhoi gwerth ar amrywiaeth • Pryder am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy • Ymrwymiad i gyfranogiad a chynhwysiant • Y gred y gall pobl sicrhau newid

Cydnabyddiaethau

Diolch yn fawr i Kate Jones a Katheryn Wise o'r Sefydliad Masnach Deg am eu cefnogaeth wrth ddatblygu'r adnodd hwn.

Ni fyddai'r cyhoeddiad hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth a chyfraniadau gan nifer o staff Oxfam.

- I gael rhagor o wybodaeth am Addysg Oxfam, gan gynnwys amrywiaeth eang o adnoddau eraill sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm: www.oxfam.org.uk/education
- I gael rhagor o wybodaeth am y Sefydliad Masnach Deg a'r gefnogaeth amrywiol y mae'n ei darparu i ysgolion: schools.fairtrade.org.uk/

Datblygwyd mewn partneriaeth â:

FAIRTRADE FOUNDATION

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Ewch yn Bananas – Trosolwg i athrawon

OXFAM